

## Addoli yw ...

### Cydnabod gogoniant a hawl Duw...

Ni all unrhyw un leihau gogoniant Duw wrth beidio'i addoli yn fwy nag y gall rhywun a gollodd ei iawn bwyll ddiffodd yr haul trwy sgriblan 'tywyllwch' ar furiau ei gell."

*C. S. Lewis*

### Cael ein trawsffurfio gan Obaith ...

Cristnogaeth yw Gobaith – cyflawn, llwyr a llawn – mae'n edrych ymlaen ac mae'n gyfeiriad newydd; nid dim ond atodiad yw Gobaith. Felly mae Cristnogaeth yn ei hanfod yn golygu dechrau o'r newydd ac y mae'n drawsffurfiad o'r presennol.

*Jurgen Moltmann*

### A chydnabod pwy ydym ...

Mewn ffydd cydnabyddwn ein bod yn llwyr haeddu digofaint a chael ein gwrthod [gan Dduw], a bod y gwrthodiad a'r digofaint wedi ei gymryd arno'i hun gan Iesu Grist hun yn ein lle, er mwyn ein gosod yng ngoleuni dwyfol ras.

*Karl Barth*



### “Diolch am gyfryngwr ...”

Crist yn aberth dros ein pechodau ni.  
Crist ein dirprwy yn sefyll yn ein lle.  
Crist yr hwn a dalodd bridwerth ein prynedigaeth.  
Crist y concwerwr yr hwn sy'n bwrw allan dywysog y byd hwn.

### Rhyfeddu'n braint ...

Nid oes gan y Cristion unrhyw allu i'n rhyddhau sydd i'w gymharu â bywyd o weddi. Mae cael mynediad i archwiliad y Sanctaidd yn golygu na allwn fyth a bod yr un peth drachefn. Mae trochi yn y Goleuni mewn heddwch gan ildio'n hunain un llwyr iddo yn golygu cael ein trawsffurfio'n araf ac yn llwyr am byth.

*Richard Foster*

### Mynd at Iesu ...

Mae addoli yn golygu, mynd at Iesu, heb restr siopa o ddeisyfiadau, heblaw am un cais a dyhead yn unig: sef i gael aros ynddo Ef. Mewn addoliad, yr ydym yn caniatáu i Iesu ein hiacháu a'n newid ni.

*Y Pab Francis*

Goleuni pwyll, llawenydd bryd,  
a ffynnon wyt i'r gwir i gyd;  
mwy wyt na phob boddhad dy hun,  
a mwy na holl ddymuniad dyn.

Dymunaf fil o weithiau di:  
pa bryd y deui ataf fi?  
Pa bryd y doi i'm llawenhau,  
a'th roi dy hun i'm llwyr foddhau?

*Caneuon Ffydd 307*

### Newid ein gwerthoedd ...

Nid cwpan o aur oedd y gwpan gynigiodd Crist i'r disgyblion yn ystod y Swper Olaf. Er hyn yr oedd ei werth y tu hwnt i bob mesur. Os ydych am anrhydeddu Crist, gwnewch hynny pan welwch ef yn noeth ac yn anghenus, yng ngwyneb y tlodion.

*Ioan Aur-enau*